**Open**
We are open and honest about the difficult choices we face, and allow people to have their say on what's important to them and their communities

**Fair**
We champion fairness, recognising that with less resource we need to prioritise services for those who need them most.

**Together**
We work with our communities and partners across the city to deliver the best outcomes for the people of Cardiff

CARDIFF
CAERDYDD

# DISGRIFIAD SWYDD

**Teitl y Swydd:**

Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

**Diben y Swydd:**

Mae'r Aelod Annibynnol yn cefnogi'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wrth iddo roi sicrwydd annibynnol i aelodau Cyngor Caerdydd a'i ddinasyddion a'i randdeiliaid ehangach, ar ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol ac asesu perfformiad y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor yn darparu adolygiad annibynnol ar lywodraethu, asesu perfformiad, rheoli risg a fframweithiau rheoli Cyngor Caerdydd ac yn goruchwylio'r prosesau adrodd ariannol a llywodraethu blynyddol. Mae'n goruchwylio archwilio mewnol ac archwilio allanol, gan gynorthwyo i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol ac effeithlon ar waith.

**Dyletswyddau a Chyfrifoldebau**

<u>Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau</u>

1. Cymryd rhan weithredol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor a bod yn wrthrychol, yn annibynnol ac yn ddiduedd.

2. Arddangos annibyniaeth, gonestrwydd a di-dueddrwydd wrth wneud penderfyniadau sy'n unol â'r gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi

3. Rhoi sylw i ofynion Cadeirydd y Pwyllgor a chyngor proffesiynol uwch swyddogion yr awdurdod gan gynnwys y Prif Swyddog Cyllid a'r Prif Weithredwr Archwilio

4. Cyfrannu at ddatblygu blaenraglen waith y Pwyllgor

5. Hyrwyddo rôl y pwyllgor o fewn yr awdurdod

6. Cefnogi adroddiadau fel sy'n ofynnol i'r Cyngor

7. Cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant a datblygiad sy'n ofynnol ar gyfer y rôl

**Cyfrannu at waith y Pwyllgor gyda'i rôl yn:**

<u>Adolygu busnes ariannol yr Awdurdod</u>

8. Llunio adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod

9. Goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod

10. Gweithio gydag archwilwyr mewnol ac allanol

11. Adolygu’r datganiadau ariannol a baratoir gan yr awdurdod

12. Ceisio sicrwydd ynghylch cydymffurfio â Strategaeth ac Arferion Rheoli'r Trysorlys

Cyfrannu at berfformiad effeithiol yr awdurdod

13. Adolygu adroddiad hunanasesu drafft yr awdurdod a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau neu'r camau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu rhoi ar waith

14. Gwneud argymhellion mewn ymateb i adroddiad asesu Panel yr awdurdod (O fis Mai 2022)

15. Adolygu ac asesu gallu'r Cyngor i ymdrin â chwynion yn effeithiol

16. Gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol

17. Adolygu ymateb drafft y Cyngor i unrhyw argymhellion gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n deillio o 'archwiliad arbennig' mewn perthynas â gofynion perfformiad y Cyngor, a gwneud unrhyw argymhellion priodol ar gyfer newidiadau

Adolygu ac asesu trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli’r awdurdod

18. Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheoli mewnol a llywodraethu corfforaethol yr awdurdod

19. Llunio adroddiadau ac argymhellion i’r awdurdod ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny

20. Adolygu ac asesu’r risgiau cyllidebol, a bod yn hyderus bod datganiadau sicrwydd yr awdurdod gan gynnwys y datganiad llywodraethu blynyddol yn adlewyrchu’r amgylchedd risg ac unrhyw gamau sydd angen eu rhoi ar waith i’w wella

21. Bod yn ymroddedig i werthoedd y Cyngor a gwerthoedd deiliaid swyddi cyhoeddus

22. Cyfrannu at y gwaith o gefnogi egwyddorion ac arferion cyfle cyfartal fel y'u nodir ym Mholisi Cyfle Cyfartal y Cyngor.

**Open**
We are open and honest about the difficult choices we face, and allow people to have their say on what's important to them and their communities

**Fair**
We champion fairness, recognising that with less resource we need to prioritise services for those who need them most.

**Together**
We work with our communities and partners across the city to deliver the best outcomes for the people of Cardiff

CARDIFF
CAERDYDD

## MANYLEB PERSON

**Teitl y Swydd:** Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

## RHAID I'R PERSON A BENODIR FODLONI'R GOFYNION CANLYNOL

| **Maes i'w Arddangos** | **Gofynion Hanfodol**<br>**Rhaid** i chi brofi eich bod chi'n bodloni'r gofynion hyn | **Gofynion Dymunol**<br>Does dim rhaid i chi fodloni'r gofynion hyn, ond os ydych dwedwch wrthym amdanynt | **Dull Asesu**<br>Ffurflen Gais, Tystysgrif neu Gyfweliad |
|---|---|---|---|
| **Cyfyngiad statudol mewn perthynas â bod yn annibynnol ar y Cyngor** | Person:<br>• nad yw'n aelod nac yn swyddog gydag unrhyw awdurdod lleol,<br>• nad yw wedi bod yn aelod neu'n swyddog gydag unrhyw awdurdod lleol ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar ddyddiad penodi'r person hwnnw, ac<br>• nad yw'n briod neu'n bartner sifil i aelod neu swyddog gydag unrhyw awdurdod lleol. | | Ffurflen gais a Chyfweliad |
| **Addysg a Hyfforddiant** | Cymhwyster proffesiynol neu reoli addas (mewn cyfrifeg, archwilio mewnol, rheoli risg, y gyfraith neu ddisgyblaeth berthnasol arall). | | Ffurflen gais a Thystysgrif lle bo angen |
| **Profiad / Gwybodaeth** | Gwybodaeth ymarferol o ran rheolaeth gyffredinol neu ariannol sefydliadau mawr yn y sector gyhoeddus neu breifat.<br><br>Gwybodaeth gyffredinol am systemau rheolaeth fewnol, | Profiad o gymryd rhan mewn cyfarfodydd Pwyllgor neu Fwrdd<br><br>Deall y cymhlethdod o faterion sy'n ymwneud ag archwilio, cyllid | Ffurflen gais a Chyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | llywodraethu da, rheoli risg a rheoli perfformiad. | a rheoli risg mewn llywodraeth leol. | |
| **Sgiliau a Gallu** | Y gallu i fod yn wrthrychol, yn annibynnol ac yn ddiduedd.<br><br>Sgiliau cyfathrebu cadarn, ystyriol o safbwyntiau pobl eraill a'r gallu i weithio fel rhan o dîm.<br><br>Yn gallu mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu o bell yn ôl y gofyn, a rhoi digon o amser i ddyletswyddau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br><br>Gallu digidol (neu fod yn barod i ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant angenrheidiol) i gael gafael ar wybodaeth, adroddiadau ac i gyfathrebu'n electronig. | Y gallu i ddeall sefyllfaoedd ac adroddiadau cymhleth ynghyd â'r cefndir statudol i'r adroddiadau hynny. | Ffurflen gais a Chyfweliad |
| **Nodweddion Personol** | Ymrwymiad i Bolisi Cyfle Cyfartal y Cyngor a chymryd rhan weithredol wrth ei hybu.<br><br>Bod yn ymroddedig i werthoedd y Cyngor a gwerthoedd deiliaid swyddi cyhoeddus. | Ymrwymiad i ddatblygiad a hyfforddiant personol. | Cyfweliad |
| **Amgylchiadau Arbennig** | Yn cael eich ystyried yn berson annibynnol a phrofiadol<br><br>O gymeriad da heb unrhyw gysylltiadau amlwg ag unrhyw blaid wleidyddol | | |